TGAU

TGAU CBAC
# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

TGAU CBAC
# ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (CWRS BYR)

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## MANYLEB




Addysgu o 2017
I'w ddyfarnu o 2018 (Cwrs Byr)
I'w ddyfarnu o 2019 (TGAU)

Fersiwn 2 Ionawr 2019

Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Lywodraeth Cymru ar gael i ganolfannau yn Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll a'r rheol derfynol. | 60 |

# TGAU CBAC mewn ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## I'w addysgu o 2017
## TGAU (Cwrs Byr) i'w ddyfarnu o 2018
## TGAU i'w ddyfarnu o 2019

Mae'r fanyleb hon yn bodloni'r Egwyddorion Cymwysterau TGAU sy'n pennu gofynion yr holl fanylebau TGAU newydd neu ddiwygiedig a ddatblygwyd i'w haddysgu yng Nghymru o fis Medi 2017

**Tudalen**


| | | |
|---|---|---|
| **Crynodeb o'r Asesiad** | | **2** |
| **1.** | **Rhagarweiniad** | **4** |
| | 1.1 Nodau ac amcanion | 4 |
| | 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant | 5 |
| | 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg | 5 |
| | 1.4 Bagloriaeth Cymru | 6 |
| | 1.5 Persbectif Cymreig | 6 |
| **2.** | **Cynnwys y Pwnc** | **7** |
| | 2.1 Uned 1 | 7 |
| | 2.2 Uned 2 | 36 |
| | 2.3 Uned 3 | 55 |
| **3.** | **Asesu** | **59** |
| | 3.1 Amcanion asesu a phwysoli | 59 |
| **4.** | **Gwybodaeth dechnegol** | **60** |
| | 4.1 Cofrestru | 60 |
| | 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl | 61 |


(h) WJEC CBAC Cyf.

# TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL (Cymru)

## CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Crefydd a Themâu Athronyddol**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr**
**50% o'r cymhwyster** **126 marc**

**Rhan A**: Mae'n rhaid i bob ymgeisydd astudio dwy gred/dysgeidiaeth greiddiol benodedig a dwy arfer benodedig crefyddau **Cristnogaeth NEU Gristnogaeth Gatholig**.

Hefyd, mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n astudio **Cristnogaeth** astudio'r ddwy gred/dysgeidiaeth greiddiol benodedig a'r ddwy arfer benodedig o un arall o chwe phrif grefyddau'r byd*: Iddewiaeth NEU Islam NEU Hindŵaeth NEU Sikhiaeth NEU Fwdhaeth

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n astudio **Cristnogaeth Gatholig** hefyd astudio dwy gred/dysgeidiaeth benodedig arall a dwy arfer benodedig o'r safbwynt Iddewig yn unig.

**Rhan B:** Mae'n rhaid i bob ymgeisydd astudio'r ddwy thema athronyddol (isod) o safbwynt **Cristnogaeth NEU Gristnogaeth Gatholig.**

**Bywyd a Marwolaeth**
**Daioni a Drygioni**

Hefyd, mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n astudio **Cristnogaeth** astudio'r ddwy thema athronyddol o safbwynt un arall o chwe phrif grefyddau'r byd*: Iddewiaeth NEU Islam NEU Hindŵaeth NEU Sikhiaeth NEU Fwdhaeth

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n astudio **Cristnogaeth Gatholig** hefyd astudio'r ddwy thema athronyddol o'r safbwynt Iddewig yn unig.

Hefyd, mae'n rhaid i bob ymgeisydd ystyried credoau anghrefyddol, megis y rhai sy'n cael eu harddel gan Ddyneiddwyr ac Anffyddwyr (bydd hyn yn cael ei asesu'n benodol yng nghwestiynau (ch) o dan thema Bywyd a Marwolaeth).

**Mae'n rhaid i'r dewis o grefyddau'r byd (yn ychwanegol at Gristnogaeth) fod yr un fath ar gyfer Rhan A a Rhan B. Gall yr un grefydd gael ei dewis o grefyddau'r byd ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 ond nid oes raid gwneud hynny.*

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Uned 2: Crefydd a Themâu Moesegol**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr**
**50% o'r cymhwyster** **126 marc**

**Rhan A:** Mae'n rhaid i ymgeiswyr astudio dwy gred/dysgeidiaeth greiddiol benodedig a dwy arfer benodedig y grefydd Cristnogaeth AC un arall o chwe phrif grefyddau'r byd*: Iddewiaeth NEU Islam NEU Hindŵaeth NEU Sikhiaeth NEU Fwdhaeth

**Rhan B:** Mae'n rhaid i ymgeiswyr hefyd astudio'r ddwy thema foesegol (isod) o bersbectif Cristnogaeth **AC** o bersbectif un arall o chwe phrif grefyddau'r byd*: Iddewiaeth NEU Islam NEU Hindŵaeth NEU Sikhiaeth NEU Fwdhaeth

**Perthnasoedd**
**Hawliau Dynol**

**Mae'n rhaid i'r dewis o grefyddau'r byd (yn ychwanegol at Gristnogaeth) fod yr un fath ar gyfer Rhan A a Rhan B. Gall yr un grefydd gael ei dewis o grefyddau'r byd ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 ond nid oes raid gwneud hynny.*

**Uned 3: Cristnogaeth Gatholig a Themâu Moesegol**
**Arholiad ysgrifenedig: 2 awr**
**50% o'r cymhwyster** **126 marc**

**Rhan A:** Mae'n rhaid i'r ymgeiswyr astudio pedair cred/dysgeidiaeth greiddiol benodedig a phedair arfer benodedig y grefydd Cristnogaeth Gatholig.

**Rhan B:** Mae'n rhaid i ymgeiswyr astudio'r ddwy thema foesegol (isod) o bersbectif Cristnogaeth Gatholig **yn unig**.

**Perthnasoedd**
**Hawliau Dynol**

**Nid oes haenau i'r cymhwyster hwn**

Mae'r tabl isod yn dangos y llwybrau gwahanol at gymhwyster TGAU Astudiaethau Crefyddol.

| Cymhwyster | Uned 1 | Uned 2 | Uned 3 |
|---|---|---|---|
| TGAU Astudiaethau Crefyddol (Cwrs Byr) | ✓* | | |
| TGAU Astudiaethau Crefyddol | ✓* | ✓ | |
| TGAU Astudiaethau Crefyddol (Diwinyddiaeth Gatholig ac Iddewiaeth). | ✓* | | ✓ |

* Gall ymgeiswyr ddilyn Uned 1:

- a chyfnewid am y cymhwyster cwrs byr
- cyn dilyn Uned 2 neu Uned 3 a chyfnewid am gymhwyster TGAU llawn ar ddiwedd y cwrs
- yn yr un gyfres ag Uned 2 neu Uned 3 a chyfnewid am gymhwyster TGAU llawn

**Lle mae ymgeiswyr wedi cyfnewid Uned 1 am y dyfarniad cwrs byr, ni all y canlyniad Uned 1 wedyn gyfrannu at ddyfarniad cwrs llawn.**

Bydd y cymhwyster unedol hwn ar gael yng nghyfres yr haf bob blwyddyn. Bydd cyfle i gofrestru am Uned 1 yn haf 2018 a dyfernir y cwrs byr am y tro cyntaf yn haf 2018. Mae Uned 2 ac Uned 3 ar gael o haf 2019 a dyfernir y cymhwyster llawn am y tro cyntaf yn haf 2019.

**Rhifau Cymeradwyo'r Cymhwyster**
**Cwrs Byr: C00/1167/4**
**Cwrs Llawn: C00/1167/3**

(h) WJEC CBAC Cyf.

# TGAU ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

## 1 RHAGARWEINIAD

### 1.1 Nodau ac amcanion

Mae'r fanyleb TGAU CBAC hon mewn astudiaethau crefyddol yn darparu cyfleoedd i ddysgwyr ddilyn cwrs sy'n gydlynol ac sy'n cydbwyso gwybodaeth am gredoau craidd, dysgeidiaethau ac arferion o leiaf dwy grefydd, gyda dealltwriaeth o sut y gellir eu cymhwyso at themâu athronyddol a moesegol.

Bydd y fanyleb yn:

- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o grefyddau a chredoau anghrefyddol, megis anffyddiaeth a dyneiddiaeth
- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o gredoau crefyddol, dysgeidiaethau, arferion a ffynonellau doethineb ac awdurdod, yn cynnwys drwy ddarllen testunau crefyddol allweddol, testunau eraill, ac ysgrythurau'r crefyddau maent yn eu hastudio
- datblygu gallu'r dysgwyr i lunio dadleuon cytbwys, strwythuredig sydd wedi eu dadlau'n dda ac sy'n seiliedig ar wybodaeth dda, gan ddangos dealltwriaeth fanwl ac eang o'r pwnc
- darparu cyfleoedd i ddysgwyr ymgysylltu â chwestiynau mewn perthynas â chred, gwerth, ystyr, pwrpas, gwirionedd, a'u dylanwad ar fywyd dynol
- herio dysgwyr i fyfyrio ar eu gwerthoedd, credoau a'u hagweddau eu hunain a'u datblygu yn sgil yr hyn maent wedi ei ddysgu, gan gyfrannu at eu paratoad ar gyfer bywyd fel oedolion mewn cymdeithas amlblwyfol a chymuned fyd-eang
- darparu cyfle i ddysgwyr astudio persbectifau Cymreig, sy'n deillio'n naturiol o'r pwnc, gan gyfoethogi dealltwriaeth y dysgwyr o'r byd o'u cwmpas.

Bydd dilyn y fanyleb hon yn galluogi dysgwyr i:

- atgyfnerthu eu dealltwriaeth o'r berthynas rhwng pobl
- dysgu am safbwyntiau cyffredin a dargyfeiriol mewn traddodiadau o ran y ffordd y mae credoau a dysgeidiaethau yn cael eu deall a'u mynegi
- dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ffaith bod traddodiadau crefyddol Prydain yn Gristnogol yn bennaf
- deall bod traddodiadau crefyddol ym Mhrydain yn amrywiol a'u bod yn cynnwys y crefyddau canlynol: Cristnogaeth, Bwdhaeth, Hindŵaeth, Islam, Iddewiaeth, Sikhiaeth, yn ogystal â chredoau anghrefyddol megis anffyddiaeth a dyneiddiaeth.

(h) WJEC CBAC Cyf.

Mae TGAU CBAC mewn Astudiaethau Crefyddol yn defnyddio dull seiliedig ar faterion nodedig o astudio astudiaethau crefyddol, athronyddol a moesegol yn y byd modern. Mae’n rhoi cyfle i ddysgwyr ddeall mwy am y byd, yr heriau crefyddol sy’n ei wynebu a’u lle yn y byd hwnnw. Bydd dilyn y cwrs TGAU hwn yn atgyfnerthu dealltwriaeth o grefyddau a’u heffeithiau ar gymdeithas. Bydd yn datblygu cymhwysedd dysgwyr mewn perthynas ag ystod eang o sgiliau ac ymagweddau ac yn galluogi pobl ifanc i fod yn grefyddol wybodus ac ystyriol, ac yn ddinasyddion sydd wedi'u hymgysylltu.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon. Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu gosod o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer cyfnod allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio astudiaethau crefyddol naill ai ar lefel UG neu Uwch. Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, boddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o’r asesiad.

(h) WJEC CBAC Cyf.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Tystysgrif Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, rhaid i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r Byd.

(h) WJEC CBAC Cyf.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

## 2.1 Uned 1

### RHAN A

Mae’n rhaid i bob ymgeisydd astudio dwy gred/dysgeidiaeth greiddiol benodedig a dwy arfer benodedig crefyddau **Cristnogaeth NEU Gristnogaeth Gatholig.**

Hefyd, mae’n rhaid i ymgeiswyr sy’n astudio **Cristnogaeth** astudio'r ddwy gred/dysgeidiaeth greiddiol benodedig a’r ddwy arfer benodedig o chwe phrif grefyddau’r byd*: Iddewiaeth NEU Islam NEU Hindŵaeth NEU Sikhiaeth Neu Fwdhaeth

Mae’n rhaid i ymgeiswyr sy’n astudio **Cristnogaeth Gatholig** hefyd astudio dwy gred/dysgeidiaeth benodedig arall a dwy arfer benodedig o’r safbwynt Iddewig yn unig.

**Mae’n rhaid i'r dewis o grefyddau’r byd (yn ychwanegol at Gristnogaeth) fod yr un fath ar gyfer Rhan A a Rhan B. Gall yr un grefydd gael ei dewis o grefyddau’r byd ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 ond nid oes raid gwneud hynny.*

Pan fo’n briodol, rhaid i ymgeiswyr ystyried safbwyntiau amrywiol.

### Rhan A

### Cristnogaeth - credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

#### Credoau

**Duw**
- Creawdwr a chynhaliwr, hollalluog, hollgariadus, hollwybodus, hollbresennol
- Credoau a dysgeidiaethau am y Creu o lyfr Genesis (Genesis 1-3, yn arbennig Genesis 1:1-3)
- Natur Dynoliaeth: delw Duw, enaid, moesol, ewyllys rydd, rhesymegol, creadigol, colledig (Genesis 1-3, yn arbennig Genesis 1:26-28 a 2:15-17)
- Y Drindod: Tair elfen yr un Duw - Y Tad (Luc 15: 11-32), y Mab (Ioan 1: 1-3, 14), a’r Ysbryd Glân (Ioan 14: 25-26, Galatiaid 5: 22-23)

**Yr Iesu fel Duw Ymgnawdoledig**
- Y Mab (Ioan 1:1-3, 14), Yr Ysbryd Glân (Ioan 14:25-26, Galatiaid 5:22-23)
- Iesu fel Meseia (Mathew 16:13-17), Gwaredwr, y Gair: yr Ymgnawdoliad (Ioan 1:1-3, 14), gwaredigaeth a'r Iawn (Ioan 3:16, 14:6)
- Genedigaeth, croeshoeliad, atgyfodiad (prif elfennau'r hyn a ysgrifennwyd am enedigaeth Iesu, (Matthew 1:18- 2:12 a Luc 1:26-35 a 2:1-21), marwolaeth (Marc 15:1-39), atgyfodiad (Ioan 20:1-21) ac esgyniad (Actau 1:9-11)

#### Arferion

**Moesoldeb**
- Gorchymyn dwyfol/absoliwtiaeth ac ymagweddau sefyllfaol/perthynolaidd at wneud penderfyniadau moesegol
- Dysgeidiaethau Iesu (Mathew 7:13-14, Mathew 25:31-46)
- Cariad / agape (Luc 10:25-37; Ioan 13:34-35)
- Maddeuant (Mathew 6:5-13; Mathew 18:21-22; Luc 23:34 Mathew 5:43-44)
- Trysorau ar y ddaear / yn y nef (Mathew 6:19-21; Luc 16:19-31)

**Eglwys**

- Amrywiaeth Cristnogaeth: Catholig, Anglicanaidd, Yr Eglwys yng Nghymru, eglwysi anghydffurfiol a chapeli
- Rôl yr eglwys leol
- Nodweddion amrywiol eglwysi a chapeli ac amrywiaeth arferion addoli.
- Pwysigrwydd gweddi, cymunol a phreifat - Mathew 6:5-13, Mathew 18:20
- Swyddogaethau cymdeithasol a chymunedol eglwysi, enghreifftiau yng Nghymru: banciau bwyd, gwaith Byddin yr Iachawdwriaeth, gwaith Shelter Cymru
- Grwpiau Cristnogol yn gweithio ar ran Cyfiawnder cymdeithasol, Cymodi, deialog rhwng crefyddau e.e. Cyngor Rhyng-ffydd Cymru, Cyngor Eglwysi'r Byd, Fforwm Cristnogion - Mwslimiaid, Cyngor Cristnogion ac Iddewon
- Erlid Cristnogion yn y byd modern (Mathew 10:22)

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **HOLLALLUOG** | **HOLLGARIADUS** | **Y DRINDOD** | **YMGNAWDOLIAD** |
| **YR IAWN** | **GORCHYMYN DWYFOL** | **AGAPE** | **DEIALOG RHWNG CREFYDDAU** |
| **HOLLWYBODUS** | **YSBRYD GLÂN** | **ATGYFODIAD** | **MESEIA** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

## Catholig - credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

### Credoau

#### Duw

- Creawdwr *ex nihilo (Cyffesion XII* Awstin Sant, 7) a chynhaliwr. Hollalluog, hollgariadus, hollwybodus, hollbresennol
- Y Drindod: Tri pherson yr un Duw - Y Tad (Luc 15: 11-32), y Mab (Ioan 1: 1-3, 14), a'r Ysbryd Glân (Ioan 14: 25-26, Galatiaid 5: 22-23). *De Trinitate* Awstin Sant 8.10
- Iesu fel Meseia (Mathew 16:13-17), Gwaredwr, y Gair, yr Ymgnawdoliad (Ioan 1:1-3, 14), gwaredigaeth a chymod (Ioan 3:16, 14:6)
- Genedigaeth, croeshoeliad, atgyfodiad ac esgyniad Iesu (elfennau allweddol hanes ei enw, ei farwolaeth, ei atgyfodiad a'i esgyniad)

#### Y Creu

- Credoau a dysgeidiaethau am y Creu o lyfr Genesis (Genesis 1-3,)
- Natur Dynoliaeth: delw Duw ('imago Dei'), enaid, moesol, ewyllys rydd, rhesymegol, creadigol, colledig, Pechod Gwreiddiol (Genesis 1-3, yn arbennig Genesis 1:26-28 a 2:15-17)
- Dysgeidiaethau Thomas Aquinas ar y natur ddynol fel rhywbeth da yn ei hanfod

### Arferion

#### Moesoldeb

- Dysgeidiaethau Iesu (Mathew 7:13-14, Mathew 25:31-46)
- Cariad / agape (Luc 10:25-37; Ioan 13:34-35)
- Maddeuant (Mathew 6:5-13, Mathew 18:21-22; Luc 23:34; Matthew 5:43-44), yn cynnwys Sacrament yr Iawn
- Trysorau ar y ddaear / yn y nef (Mathew 6:19-21; Luc 16:19-31)
- Ymagweddau gorchymyn dwyfol/absoliwtiaeth sefyllfaol/perthynolaidd a moeseg rhinwedd at wneud penderfyniadau moesegol

#### Yr Eglwys Gatholig

- Rôl yr eglwys, yr esgobaeth a'r plwyf Catholig lleol
- Prif nodweddion addoliad Catholig: yr Offeren (yn cynnwys Sacrament yr Ewcharist)
- Yr arfer o gynnig Offerennau i'r meirw
- Swyddogaethau cymdeithasol a chymunedol: 'byw'r Offeren'
- Cenhadaeth, efengylu, twf yr eglwys (Mathew 28:16-20; Galatiaid 3:28, *Evangelii Gaudium* y Pab Ffransis 15, 48-49, 197-198, 264-265, grwpiau Catholig yn gweithio tuag at hybu cenhadaeth: Missio
- Grwpiau Catholig yn gweithio ar ran cyfiawnder cymdeithasol: CARJ, CAFOD a Chymdeithas Sant Vincent de Paul (*Gaudium et Spes* 78 a 29
- Grwpiau Catholig yn gweithio at gymod drwy ddeialog rhwng crefyddau: Cyngor Rhyng-ffydd Cymru, Fforwm Cristnogion-Mwslimiaid, Cyngor Cristnogion ac Iddewon, Cynghorwyr Rhyng-grefyddol a Chynhadledd Esgobion Catholig
- Erlid Cristnogion yn y byd modern (Mathew 10:22)

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **HOLLALLUOG** | **HOLLGARIADUS** | **Y DRINDOD** | **YMGNAWDOLIAD** |
| **YR IAWN** | **GORCHYMYN DWYFOL** | **AGAPE** | **DEIALOG RHWNG CREFYDDAU** |
| **ATGYFODIAD** | **SACRAMENTAU** | **OFFEREN** | ***IMAGO DEI*** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

## Iddewiaeth - credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

### Credoau

**Y cysyniad o Dduw**

- Y gred Iddewig mewn un Duw creadigol, hollalluog, hollbresennol a hollgariadus (Genesis 1:3-5, Exodus 20:1-17)
- Cred yn nysgeidiaethau Shema, megis y cysyniad o un Duw
- Duw yn drosgynnol uwchben popeth daearol (Eseia 55: 8-9)
- Duw yn dragwyddol, trugarog ac yn farnwr (yn cosbi, gwobrwyo ac yn maddau)

**Mannau sanctaidd**

- Y synagog: man i weddïo, astudio, dathlu ac ymgynnull
- Gwahaniaethau rhwng traddodiadau: Uniongred, Diwygiedig, Rhyddfrydol
- Y cartref: man addoli, hunaniaeth, dathlu a thraddodiadau

### Arferion

**Arferion sy'n dangos credoau ynglŷn â Duw**

- Adrodd y Shema yn y bore a gyda'r nos
- Rhesymau pam na ddylai Duw gael ei ddarlunio mewn celfyddyd, ac ar brydiau ni ddefnyddir ei enw llawn (D-w)
- Rhesymau dros wisgo'r kippah
- Rhesymau pam mae dynion Iddewig (rhai menywod Iddewig rhyddfrydol) yn gwisgo'r tallith

**Addoliad yn y cartref a'r synagog**

- Pwysigrwydd y synagog: nodweddion mewnol- aron hakodesh (arch), ner tamid, bimah, Torah, Y Deg Gorchymyn, llefydd eistedd
- Darllen y Torah yn ystod addoliad yn y synagog
- Arferion amrywiol mewn synagogau Uniongred a Diwygiedig – addoliad a rôl a rhyw y Rabbi
- Pwysigrwydd y cartref ar gyfer addoliad mewn Iddewiaeth: heriau a buddion dilyn Shabbat (Exodus 20:8-10)
- Dilyn kashrut (kosher, treifa, parev, shechitah)
- Gwahanu llaeth a chig mewn cegin kosher (Lefiticus 11:1-24, Exodus 23:19)

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **HOLLALLUOG** | **HOLLGARIADUS** | **SHEMA** | **SYNAGOG** |
| **UNIONGRED** | **DIWYGIEDIG** | **SHABBAT** | **KASHRUT** |
| **ARON HAKODESH** | **RABBI** | **KIPPAH** | **NER TAMID** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

## Islam - credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

### Credoau

**Natur Duw**

- Allah fel un Duw: Tawhid (Qur'an 3:18)
- Rhinweddau Allah yn y Qur'an; e.e. mewnfodol, trosgynnol, hollalluog, hael, trugarog (Qur'an 46:33), 99 enw Allah
- Ystyr Islam fel 'ymostwng' i Allah a sut mae Mwslimiaid yn byw bywyd o ufudd-dod i ewyllys Allah, yn cynnwys pwysigrwydd Jihad Mwyaf
- Shahadah fel datganiad o ffydd yn Allah, shirk fel pechod yn erbyn Allah
- Rhesymau dros wahardd delweddau o Allah neu unrhyw ffigwr dynol

**Y Qur'an**

- Qur'an fel testun sanctaidd a chanllaw i fywyd bob dydd
- Allah yn datguddio'r Qur'an, drwy'r Angel Jabril, i'r proffwyd Muhammad (Qur'an 2:97-98)
- Pwysigrwydd Hadith a Sunnah i Fwslemiaid
- Enghreifftiau o barch at y Qur'an fel gair uniongyrchol Allah

### Arferion

**Pum Piler Islam Sunni**
**Gweddïo / Salat**

- Galwad Adhan i weddïo, gweddïo mewn mosg a gweddi Jummah ar ddyddiau Gwener (Qur'an 15:98-99, 29:45)
- Gweddïo yn y cartref, gweddi breifat (Du'ah)
- Paratoadau a'r bwriad i weddïo: wudu a niyyah
- Arwyddocâd a symbolaeth y gwahanol ystumiau gweddïo sy'n creu'r rakat (dilyniant o weddïau)

**Gweithredoedd Gorfodol**

- Shahadah: cyffes ffydd Fwslimaidd yn Allah a'r proffwyd Muhammad; achlysuron pan adroddir y Shahadah e.e. seremoni aqiqah, tröedigaeth i Islam
- Zakat: talu treth cardod (neu elusen) er lles eraill, ar gyfer beth y gellir defnyddio treth zakat, ac elusen ychwanegol (saddaqah)
- Sawm: Ymprydio yn ystod mis Ramadan. Sut a pham mae Mwslimiaid yn ymprydio yn ystod Ramadan a rheolau am ddeiet halal a haram (Qur'an 2:183)

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TAWHID** | **SHAHADAH** | **SHIRK** | **QUR'AN** |
| **SALAT** | **SAWM** | **ZAKAT** | **ADHAN** |
| **HALAL** | **DU'AH** | **SADDAQAH** | **HADITH** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

## Hindŵaeth - credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd

### Credoau

#### Brahman ac atman

- Brahman fel enaid y Bydysawd, ffynhonnell popeth byw (Chandogya Upanishad 3:14.1)
- Brahman fel un ac fel nifer; Brahman ym mhopeth (Katha Upanishad 5:2)
- Atman (enaid), atman fel rhywbeth tragwyddol na ellir ei ddinistrio (Bhagavad Gita 2:12, 2:17, 18:61)
- Perthynas rhwng Brahman ac atman – halen mewn dŵr

#### Duwiau Hindŵaidd

- Natur a rôl y Trimurti – Brahma, Vishnu a Shiva (Kurma Purana 1:6, 1:9, 1:26)
- Amrywiaeth o fewn Hindŵaeth rhwng Vaishnaviaeth a Shaiviaeth
- Y cysyniad o avatar gyda chyfeiriad at straeon am Krishna a Rama (Bhagavad Gita 4:5, 7-8
- Rôl a phwysigrwydd duwiau a duwiesau i Hindŵiaid, yn arbennig y straeon am Ganesh a Hanuman

### Arferion

#### Addoli

- Nodweddion a phwysigrwydd y puja dyddiol yn y cartref: (Bhagavad Gita 3:19, 4:38)
- Nodweddion a phwysigrwydd puja cynulleidfaol yn y mandir ( yn cynnwys defosiynau i'r murti, arti a'r havan)
- Amrywiaeth yn addoliad Vaishnaviaeth a Shaiviaeth
- Arwyddocâd bhakti
- Rôl, pwysigrwydd a nodweddion pererindod i Varanasi

#### Defodau Newid Byd

- Perthynas â varnashramadharma (Y Mahabharata, Llyfr 9.60)
- Genedigaeth a phlentyndod – Nam Samskar (enwi)
- Mundane (eillio)
- Derbyn – upanaya (seremoni'r llinyn sanctaidd – nodweddion y seremoni a symbolaeth gysylltiedig
- Priodas – nodweddion y seremoni a symbolaeth gysylltiedig
- Marwolaeth – amlosgi a defodau a symbolaeth gysylltiedig – rôl y mab hynaf, torri'r penglog er mwyn rhyddhau atman, gwasgaru llwch

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **BRAHMAN** | **ATMAN** | **TRIMURTI** | **AVATAR** |
| **PUJA** | **ARTI** | **UPANAYA** | **MANDIR** |
| **BHAKTI** | **VARANASI** | **NAM SAMSKAR** | **MURTI** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

## Sikhiaeth - Credoau , dysgeidiaethau ac arferion craidd

### Credoau

**Natur Duw**

- Duw fel un, Duw yn fewnfodol a hollbresennol, holl ddadlennol (Guru Granth Sahib 1)
- Enwau Duw
- Duw yn bersonol, fel creawdwr a Guru (Guru Granth Sahib 294)

**Rôl a phwrpas dynoliaeth**

- Er mwyn cyflawni undod â Duw (mukti) – dysgeidiaeth am yr enaid, karma ac aileni (Guru Granth Sahib 2, 78, 11, 43)
- Myfyrio ar enw Duw er mwyn dod yn gurmukh (Guru Granth Sahib 125, 250)
- Gwasanaethu eraill yn anhunanol (sewa), gwneud bywoliaeth onest ac atgenhedlu
- Sikhiaeth fel crefydd deuluol, pwysigrwydd a phwyslais ar fod yn rhan o deulu dynol.

### Arferion

**Addoli**

- Nodweddion y gurdwara
- Rôl Guru Granth Sahib mewn addoliad
- Nodweddion y gwasanaeth; rôl granthi a'r epilog
- Rhannu karah prashad
- Rôl langar yn y gurdwara – y cysyniad o gydraddoldeb a gwasanaeth anhunanol (Guru Granth Sahib 349).

**Seremonïau**

- Enwi plentyn Sikh – ystyr ac arwyddocâd
- Arwyddocâd a'r defnydd o'r enwau Singh a Kaur
- Seremoni dderbyn y Sikh (Amrit Sanskar) – pwysigrwydd ac arwyddocâd ym mywyd Sikh ac ystyried safbwynt Sikhiaid nad ydynt yn Khalsa
- Ystyr prif nodweddion y seremoni dderbyn
- Gwisgo'r 5k a'u symbolaeth a'u harwyddocâd – kesh, kangha, kirpan, kara, kacch.

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **GURU** | **SEWA** | **GURDWARA** | **GURU GRANTH SAHIB** |
| **LANGAR** | **5 K** | **AMRIT SANSKAR** | **GURMURKH** |
| **MUKTI** | **SINGH/KAUR** | **KARMA** | **AILENI** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

## Bwdhaeth - credoau , dysgeidiaethau ac arferion craidd

### Credoau

**Y Bwdha**

- Bywyd cynnar – cyn-enedigaeth, genedigaeth, rhagfynegiad, bywyd yn y palas
- Pedair Golygfa – henaint, salwch, marwolaeth, dyn sanctaidd
- Ymadawiad – gadael y palas, dod yn asgetig
- Goleuedigaeth – gweld y byd am yr hyn ydyw mewn gwirionedd
- Dysgeidiaethau – Pregeth Parc y Ceirw (troad cyntaf olwyn dharma)

**Dysgeidiaethau'r Bwdha**

- Mathau o ddioddefaint (dukkha); achosion dioddefaint (tanha); goleuedigaeth ar ddiwedd dioddefaint (nirodha);
- Dilyn y Llwybr Wythblyg fel ffordd i derfynu dioddefaint (maga) (Dhammapada 1, 5)
- Tair rhan y Llwybr Wythblyg – Doethineb (panna) deall cywir a bwriad cywir
- Moesoldeb (sila) siarad cywir, gweithredu cywir, bywoliaeth gywir
- Myfyrdod (samadhi) ymdrechu cywir, meddylgarwch cywir, canolbwyntio cywir
- Heriau byw yn unol â dysgeidiaethau Bwdhaidd

### Arferion

**Arferion Myfyrio**

- Arwyddocâd a phwysigrwydd myfyrio (Dhammapada 282)
- Mathau o fyfyrio – anadlu (samatha)
- Caredigrwydd cariadus (mettabhavana)
- Myfyrio i gael mewnwelediad (vipassana)

**Gwyliau ac Enciliadau**

- Wesak – dathlu genedigaeth y Bwdha (yn achos Bwdhyddion Theravada mae hyn hefyd yn dathlu goleuedigaeth a marwolaeth y Bwdha)
- Kathina – gŵyl sy'n dynodi diwedd Vassa (enciliad traddodiadol y mynachod yn ystod tymor y glaw)
- Dydd Parinirvana – dynodi marwolaeth y Bwdha a'i ymadawiad i'r nirvana terfynol (Mahayana)

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **BWDHA** | **DUKKHA** | **TANHA** | **LLWYBR WYTHBLYG** |
| **SAMATHA** | **DHAMMA** | **SANGHA** | **WESAK** |
| **GWIRIONEDDAU NOBL** | **VIPASSANA** | **METTABHAVANA** | **PARINIRVANA** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

## RHAN B

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd astudio'r ddwy thema athronyddol (isod) o safbwynt **Cristnogaeth NEU Gristnogaeth Gatholig.**

**Bywyd a Marwolaeth**
**Daioni a Drygioni**

Hefyd, mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n astudio **Cristnogaeth** astudio'r ddwy thema athronyddol o safbwynt un arall o chwe phrif grefyddau'r byd*: Iddewiaeth NEU Islam NEU Hindŵaeth NEU Sikhiaeth NEU Fwdhaeth

Mae'n rhaid i ymgeiswyr sy'n astudio **Cristnogaeth Gatholig** hefyd astudio'r ddwy thema athronyddol o'r safbwynt Iddewig yn unig.

**Mae'n rhaid i'r dewis o grefyddau'r byd (yn ychwanegol at Gristnogaeth) fod yr un fath ar gyfer Rhan A a Rhan B. Gall yr un grefydd gael ei dewis o grefyddau'r byd ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 ond nid oes raid gwneud hynny.*

### Thema 1: Materion Bywyd a Marwolaeth

Mae'r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob ymgeisydd ystyried credoau crefyddol ac anghrefyddol ynglŷn â natur bywyd a marwolaeth a tharddiad a gwerth y bydysawd a bywyd dynol.

Disgwylir y bydd Ymgeiswyr yn cyfeirio'n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod, yn ogystal ag at gredoau Dyneiddwyr ac Atheïstiaid (Anffyddwyr).

Pan fo'n briodol, rhaid i ymgeiswyr ystyried safbwyntiau amrywiol.

### Cynnwys o safbwyntiau Cristnogol ac anghrefyddol

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Y byd | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Cristnogol amrywiol am yr hyn a ysgrifennwyd am darddiad y bydysawd: Genesis 1 a 2<br>➢ Y berthynas rhwng safbwyntiau Cristnogol ac anghrefyddol am y creu ac i ba raddau maent yn gwrthdaro<br>➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Cristnogol am awdurdod, stiwardiaeth, cyfrifoldeb amgylcheddol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang: Genesis 1:28, Salmau 8:6<br>➢ Gwaith Cymorth Cristnogol i hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol ar:<br>➢ greu'r Bydysawd: 'Damcaniaeth y Glec Fawr' (Stephen Hawking) Esblygiad 'Dall' yn erbyn Esblygiad 'wedi'i Gynllunio' (Charles Darwin a Richard Dawkins)<br>➢ stiwardiaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol, cynaliadwyedd; 'Dyneiddwyr dros Fyd Gwell' |

| | |
|---|---|
| Tarddiad a gwerth bywyd dynol | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Cristnogol amrywiol am darddiad a sancteiddrwydd bywyd dynol: Genesis 1:31, Jeremeia 1:5<br>➢ Agweddau Cristnogol amrywiol at erthylu ac ewthanasia, yn cynnwys safbwyntiau Catholig a'r Eglwys yng Nghymru ar faterion dechrau a diwedd bywyd<br>➢ Cyfreithiau Cymru mewn perthynas â: rhoi organau ac ymatebion Cristnogol i hynny<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol ar:<br>➢ ansawdd bywyd ar draul sancteiddrwydd bywyd mewn perthynas ag erthylu ac ewthanasia (safbwyntiau Peter Singer – 'rhywogaethiaeth')<br>➢ 'Hawl i Ddewis', 'Urddas wrth Farw' (ewthanasia)<br>➢ pwyslais ar fywyd cyn marwolaeth yn hytrach na bywyd ar ôl marwolaeth<br>➢ ymagwedd sefyllfaol/perthynolaidd yn hytrach nag athrawiaethol neu absoliwtaidd |
| Credoau ynglŷn â marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth | ➢ Credoau a dysgeidiaethau Cristnogol ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth, yn cynnwys yr enaid, dydd y farn, nefoedd ac uffern: Ioan 11:24-27, 1 Corinthiaid 15: 42-44<br>➢ Credoau Cristnogol amrywiol ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth: Nefoedd, Uffern, Atgyfodiad, Purdan<br>➢ Sut mae angladdau Cristnogol yn adlewyrchu credoau ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth:<br>➢ Angladdau dyneiddiol yng Nghymru fel adlewyrchiad o gredoau ynglŷn â marwolaeth fel diwedd bywyd |

**Cysyniadau Allweddol:**

O astudio'r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- bywyd ar ôl marwolaeth
- cyfrifoldeb amgylcheddol
- ewthanasia
- esblygiad
- erthylu
- ansawdd bywyd
- sancteiddrwydd bywyd
- yr enaid

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso'r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 1: Materion Bywyd a Marwolaeth**

Mae'r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr ystyried credoau crefyddol ac anghrefyddol ynglŷn â natur bywyd a marwolaeth a tharddiad a gwerth y bydysawd a bywyd dynol.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio'n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod, yn ogystal ag at gredoau Dyneiddwyr ac Atheïstiaid (Anffyddwyr).

## Cynnwys o safbwyntiau Catholig ac anghrefyddol

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Y byd | ➢ Dealltwriaeth yr Eglwys Gatholig ynglŷn â tharddiad y bydysawd a'r creu a stiwardiaeth (Genesis 1-3, Mathew 6:25-34, *Laudato Si* 13 )<br>➢ Y berthynas rhwng safbwyntiau Catholig, safbwyntiau Cristnogol eraill a safbwyntiau anghrefyddol am y creu ac i ba raddau maent yn gwrthdaro (Neges y Pab Ioan Paul II i *Academi Archoffeiriadol y Gwyddorau: Esblygiad*, 1996, paragraffau 3 a 4)<br>➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Catholig am awdurdod, stiwardiaeth, cyfrifoldeb amgylcheddol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang: Genesis 1:28, Salmau 8:6<br>➢ Gwaith CAFOD i hyrwyddo dinasyddiaeth fyd-eang<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol ar:<br>➢ greu'r Bydysawd: 'Damcaniaeth y Glec Fawr' (Stephen Hawking) Esblygiad 'Dall' yn erbyn Esblygiad 'wedi'i Gynllunio' (Charles Darwin a Richard Dawkins)<br>➢ stiwardiaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol, cynaliadwyedd; 'Dyneiddwyr dros Fyd Gwell' |
| Tarddiad a gwerth bywyd dynol | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Catholig tuag at darddiad a sancteiddrwydd bywyd dynol, o genhedliad i'w ddiwedd naturiol (Mathew 19:18), agweddau at erthylu (Catecism yr Eglwys Gatholig 2270) ac ewthanasia, yn cynnwys materion ynglŷn â marw â chymorth a gofal lliniarol, *Evangelium Vitae* 65<br>➢ 'Dewis Bywyd'/'Cymdeithas gwarchod y Plentyn yn y Groth' lleol<br>➢ Gwaith hosbisau Catholig lleol ac arwyddocâd Cymun y Cleifion<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol ar:<br>➢ ansawdd bywyd ar draul sancteiddrwydd bywyd mewn perthynas ag erthylu ac ewthanasia (safbwyntiau Peter Singer – 'rhywogaethiaeth')<br>➢ 'Hawl i Ddewis', 'Urddas wrth Farw' (ewthanasia)<br>➢ pwyslais ar fywyd cyn marwolaeth yn hytrach na bywyd ar ôl marwolaeth<br>➢ ymagwedd sefyllfaol/perthynolaidd yn hytrach nag athrawiaethol neu absoliwtaidd |
| Credoau ynglŷn â marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth | ➢ Credoau Catholig ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth, yn cynnwys yr enaid, dydd y farn, nefoedd, uffern a'r purdan (Catecism yr Eglwys Gatholig 1020-1023, 1030, 1033)<br>➢ Sut mae angladdau Catholig yn adlewyrchu credoau am fywyd ar ôl marwolaeth (Catecism yr Eglwys Gatholig 1684-1690)<br>➢ Angladdau dyneiddiol yng Nghymru fel adlewyrchiad o gredoau ynglŷn â marwolaeth fel diwedd bywyd |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Cysyniadau:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- bywyd ar ôl marwolaeth
- cyfrifoldeb amgylcheddol
- ewthanasia
- esblygiad
- erthylu
- ansawdd bywyd
- sancteiddrwydd bywyd
- yr enaid

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

**Thema 1: Materion Bywyd a Marwolaeth**

Mae'r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr ystyried credoau crefyddol ac anghrefyddol ynglŷn â natur bywyd a marwolaeth a tharddiad a gwerth y bydysawd a bywyd dynol.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio'n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod, yn ogystal ag at gredoau Dyneiddwyr ac Atheïstiaid (Anffyddwyr).

## Cynnwys o safbwyntiau Iddewig ac anghrefyddol

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Y byd | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Iddewon Uniongred a Diwygiedig am yr hyn a ysgrifennwyd am darddiad y bydysawd: Genesis 1 a 2<br>➢ Y berthynas rhwng safbwyntiau Iddewig ac anghrefyddol am y creu ac i ba raddau maent yn gwrthdaro<br>➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Iddewig am awdurdod, tikkun olam a bal tashchit, gemilut hasadim, stiwardiaeth, cyfrifoldeb amgylcheddol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang: Honi o'r Talmud (Avot d'Rebbe/Rabbi Natan 31b) a dysgeidiaethau 13 Egwyddor Maimonides (rhif 10)<br>➢ TuB'shevat: diwrnod ymwybyddiaeth ecolegol a fynegir drwy blannu coed<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ greu'r Bydysawd: 'Damcaniaeth y Glec Fawr' (Stephen Hawking) Esblygiad 'Dall' yn erbyn Esblygiad 'wedi'i Gynllunio' (Charles Darwin a Richard Dawkins)<br>➢ stiwardiaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol, cynaliadwyedd; 'Dyneiddwyr dros Fyd Gwell' |
| Tarddiad a gwerth bywyd dynol | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Iddewig am darddiad a sancteiddrwydd/achub bywyd dynol: pikuach nefesh, Y Talmud (B. Yoma 84b rhif 8-9)<br>➢ Agweddau Iddewig amrywiol at erthylu ac ewthanasia: Moesau'r Tadau 4:22, Mishnah Oholot 7.6<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ ansawdd bywyd ar draul sancteiddrwydd bywyd mewn perthynas ag erthylu ac ewthanasia (safbwyntiau Peter Singer – 'rhywogaethiaeth')<br>➢ 'Hawl i Ddewis', 'Urddas wrth Farw' (ewthanasia)<br>➢ pwyslais ar fywyd cyn marwolaeth yn hytrach na bywyd ar ôl marwolaeth<br>ymagwedd sefyllfaol/perthynolaidd yn hytrach nag athrawiaethol neu absoliwtaidd |
| Credoau ynglŷn â marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth | ➢ Credoau a dysgeidiaethau Iddewig ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth, yn cynnwys yr enaid, dydd y farn, nefoedd ac uffern, atgyfodiad, sheol, olam ha-ba<br>➢ Sut mae angladdau Iddewig yn adlewyrchu credoau ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth:<br>➢ Angladdau dyneiddiol yng Nghymru fel adlewyrchiad o gredoau ynglŷn â marwolaeth fel diwedd bywyd |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Cysyniadau:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- bywyd ar ôl marwolaeth
- cyfrifoldeb amgylcheddol
- ewthanasia
- esblygiad
- erthylu
- ansawdd bywyd
- sancteiddrwydd bywyd
- yr enaid

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 1: Materion Bywyd a Marwolaeth**

Mae'r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr ystyried credoau crefyddol ac anghrefyddol ynglŷn â natur bywyd a marwolaeth a tharddiad a gwerth y bydysawd a bywyd dynol.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio'n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod, yn ogystal ag at gredoau Dyneiddwyr ac Atheïstiaid (Anffyddwyr).

## Cynnwys o safbwyntiau Islamaidd ac anghrefyddol

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Y byd | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Islamaidd amrywiol am darddiad y bydysawd: Qur'an 36:81<br>➢ Y berthynas rhwng safbwyntiau Islamaidd ac anghrefyddol am y creu ac i ba raddau maent yn gwrthdaro<br>➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Islamaidd am fitra, khalifah, cyfrifoldeb amgylcheddol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang: Qur'an 7:54<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ greu'r Bydysawd: 'Damcaniaeth y Glec Fawr' (Stephen Hawking) Esblygiad 'Dall' yn erbyn Esblygiad 'wedi'i Gynllunio' (Charles Darwin a Richard Dawkins)<br>➢ stiwardiaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol, cynaliadwyedd; 'Dyneiddwyr dros Fyd Gwell' |
| Tarddiad a gwerth bywyd dynol | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Islamaidd am darddiad a sancteiddrwydd bywyd dynol: Qur'an 5:32, 6:151<br>➢ Agweddau Islamaidd at erthylu ac ewthanasia: Qur'an 30:40<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ ansawdd bywyd ar draul sancteiddrwydd bywyd mewn perthynas ag erthylu ac ewthanasia (safbwyntiau Peter Singer – 'rhywogaethiaeth')<br>➢ 'Hawl i Ddewis', 'Urddas wrth Farw' (ewthanasia)<br>➢ pwyslais ar fywyd cyn marwolaeth yn hytrach na bywyd ar ôl marwolaeth<br>ymagwedd sefyllfaol/perthynolaidd yn hytrach nag athrawiaethol neu absoliwtaidd |
| Credoau ynglŷn â marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth | ➢ Credoau a dysgeidiaethau Islamaidd ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth, yn cynnwys yr enaid, dydd y farn, nefoedd ac uffern: Qur'an 46:33, 3:16<br>➢ Sut mae angladdau Islamaidd yn adlewyrchu credoau ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth:<br>➢ Defodau claddu Mwslimaidd yng Nghymru – cyfeiriad beddi a defnyddio arch<br>➢ Angladdau dyneiddiol yng Nghymru fel adlewyrchiad o gredoau ynglŷn â marwolaeth fel diwedd bywyd |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Cysyniadau:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- bywyd ar ôl marwolaeth
- cyfrifoldeb amgylcheddol
- ewthanasia
- esblygiad
- erthylu
- ansawdd bywyd
- sancteiddrwydd bywyd
- yr enaid

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 1: Materion Bywyd a Marwolaeth**

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr ystyried credoau crefyddol ac anghrefyddol ynglŷn â natur bywyd a marwolaeth a tharddiad a gwerth y bydysawd a bywyd dynol.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod, yn ogystal ag at gredoau Dyneiddwyr ac Atheïstiaid (Anffyddwyr).

## Cynnwys o safbwyntiau Hindŵaidd ac anghrefyddol

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Y byd | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Hindŵaidd am yr hyn a ysgrifennwyd am darddiad y bydysawd: Emyn y Creu (Rig Veda), Bhagavata Purana 12.4.4, Bhagavad Gita 11:7<br>➢ Y berthynas rhwng safbwyntiau Hindŵaidd ac anghrefyddol am y creu ac i ba raddau maent yn gwrthdaro<br>➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Hindŵaidd am arfer ahimsa er lles yr amgylchedd, cyfrifoldeb amgylcheddol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang: Bhagavata Purana 7. 14. 9. Bhagavad Gita 7. 10<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ greu’r Bydysawd: 'Damcaniaeth y Glec Fawr' (Stephen Hawking) Esblygiad ‘Dall’ yn erbyn Esblygiad ‘wedi'i Gynllunio’ (Charles Darwin a Richard Dawkins)<br>➢ stiwardiaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol, cynaliadwyedd; ‘Dyneiddwyr dros Fyd Gwell’ |
| Tarddiad a gwerth bywyd dynol | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Hindŵaidd am darddiad a sancteiddrwydd bywyd dynol: Bhagavad Gita 2: 17<br>➢ Y cysyniad o atman fel rhywbeth hollbresennol ym mhopeth byw: Bhagavad Gita 18:61<br>➢ Agweddau Hindŵaidd at erthylu ac ewthanasia: Yajur Veda 40-43. Arfer ahimsa<br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ ansawdd bywyd ar draul sancteiddrwydd bywyd mewn perthynas ag erthylu ac ewthanasia (safbwyntiau Peter Singer - 'rhywogaethiaeth')<br>➢ ‘Hawl i Ddewis’, ‘Urddas wrth Farw’ (ewthanasia)<br>➢ pwyslais ar fywyd cyn marwolaeth yn hytrach na bywyd ar ôl marwolaeth<br>ymagwedd sefyllfaol/perthynolaidd yn hytrach nag athrawiaethol neu absoliwtaidd |
| Credoau ynglŷn â marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth | ➢ Credoau a dysgeidiaethau Hindŵaidd ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth, yn cynnwys atman, samsara, ailymgnawdoliad/trawsfudiad a moksha: Bhagavad Gita 2: 12-13, 22, 27<br>➢ Sut mae angladdau Hindŵaidd yn adlewyrchu credoau ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth:<br>➢ Defodau amlosgi Hindŵaidd yng Nghymru<br>➢ Angladdau dyneiddiol yng Nghymru fel adlewyrchiad o gredoau ynglŷn â marwolaeth fel diwedd bywyd |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Cysyniadau:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- bywyd ar ôl marwolaeth
- cyfrifoldeb amgylcheddol
- ewthanasia
- esblygiad
- erthylu
- ansawdd bywyd
- sancteiddrwydd bywyd
- yr enaid

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 1: Materion Bywyd a Marwolaeth**

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr ystyried credoau crefyddol ac anghrefyddol ynglŷn â natur bywyd a marwolaeth a tharddiad a gwerth y bydysawd a bywyd dynol.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod, yn ogystal ag at gredoau Dyneiddwyr ac Atheïstiaid (Anffyddwyr).

## Cynnwys o safbwyntiau Sikhaidd ac anghrefyddol

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Y byd | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Sikhaidd am darddiad y bydysawd: Nid oes gan Sikhiaid stori am y creu ond maent yn credu mai Duw greodd y bydysawd: Guru Granth Sahib 1<br>➢ Y berthynas rhwng safbwyntiau Sikhaidd ac anghrefyddol am y creu ac i ba raddau maent yn gwrthdaro<br>➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Sikhaidd am stiwardiaeth, cyfrifoldeb amgylcheddol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang: Guru Granth Sahib 21, 1037<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ greu’r Bydysawd: 'Damcaniaeth y Glec Fawr' (Stephen Hawking) Esblygiad ‘Dall’ yn erbyn Esblygiad ‘wedi'i Gynllunio’ (Charles Darwin a Richard Dawkins)<br>➢ stiwardiaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol, cynaliadwyedd;<br>‘Dyneiddwyr dros Fyd Gwell’ |
| Tarddiad a gwerth bywyd dynol | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Sikhaidd am darddiad a sancteiddrwydd bywyd dynol: y cysyniad o’r enaid fel rhywbeth hollbresennol ym mhopeth byw: Guru Granth Sahib 441<br>➢ Agweddau Sikhaidd at erthylu ac ewthanasia: arfer ahimsa, Gurus yn condemnio babanladdiad a safbwyntiau Sikhaidd am beidio ag ymyrryd â phrosesau naturiol Duw<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ ansawdd bywyd ar draul sancteiddrwydd bywyd mewn perthynas ag erthylu ac ewthanasia (safbwyntiau Peter Singer - 'rhywogaethiaeth')<br>➢ ‘Hawl i Ddewis’, ‘Urddas wrth Farw’ (ewthanasia)<br>➢ pwyslais ar fywyd cyn marwolaeth yn hytrach na bywyd ar ôl marwolaeth<br>➢ ymagwedd sefyllfaol/perthynolaidd yn hytrach nag athrawiaethol neu absoliwtaidd |
| Credoau ynglŷn â marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth | ➢ Credoau a dysgeidiaethau Sikhaidd am fywyd ar ôl marwolaeth, yr enaid, samsara, ailymgnawdoliad/trawsfudiad a mukti: Guru Granth Sahib 13<br>➢ Sut mae angladdau Sikhaidd yn adlewyrchu credoau am fywyd ar ôl marwolaeth:<br>➢ Defodau angladdol a chladdu yng Nghymru<br>➢ Angladdau dyneiddiol yng Nghymru fel adlewyrchiad o gredoau ynglŷn â marwolaeth fel diwedd bywyd |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Cysyniadau:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- bywyd ar ôl marwolaeth
- cyfrifoldeb amgylcheddol
- ewthanasia
- esblygiad
- erthylu
- ansawdd bywyd
- sancteiddrwydd bywyd
- yr enaid

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 1: Materion Bywyd a Marwolaeth**

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i bob dysgwr ystyried credoau crefyddol ac anghrefyddol ynglŷn â natur bywyd a marwolaeth a tharddiad a gwerth y bydysawd a bywyd dynol.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod, yn ogystal ag at gredoau Dyneiddwyr ac Atheïstiaid (Anffyddwyr).

## Cynnwys o safbwyntiau Bwdhaidd ac anghrefyddol

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Y byd | ➢ Nid oes gan Fwdhyddion stori am y creu nac unrhyw gysyniad o Dduw'r creawdwr<br>➢ Cylch pydru, marw ac aileni<br>➢ Safbwyntiau anghrefyddol ynglŷn â’r creu ac i ba raddau maent yn cytuno â safbwyntiau Bwdhaidd<br>➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Bwdhaidd am stiwardiaeth, cyfrifoldeb amgylcheddol, cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang: Pratiya Samutpada, Gweithredu Cywir Priodol (y Llwybr Wythblyg) a’r ail Argymhelliad<br>➢ Enciliadau Bwdhaidd yng Nghymru e.e. Lam Rim (Rhaglan) a’u cysylltiadau â materion cynaliadwyedd<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ greu’r Bydysawd: 'Damcaniaeth y Glec Fawr' (Stephen Hawking) Esblygiad ‘Dall’ yn erbyn Esblygiad ‘wedi'i Gynllunio’ (Charles Darwin a Richard Dawkins)<br>➢ stiwardiaeth, cyfrifoldeb cymdeithasol a chymunedol, cynaliadwyedd; 'Dyneiddwyr dros Fyd Gwell’ |
| Tarddiad a gwerth bywyd dynol | ➢ Credoau, dysgeidiaethau ac agweddau Bwdhaidd am werth bywyd dynol: Y Pum Argymhelliad, Llwybr Wythblyg Nobl, Ffordd Ganol<br>➢ Agweddau Bwdhaidd amrywiol at erthylu ac ewthanasia: gall karuna a gweithio gyda dukkha olygu bod ewthanasia yn dderbyniol (Dalai Lama), rhaid hefyd ystyried Ahimsa a’r Argymhelliad cyntaf.<br><br>Safbwyntiau anghrefyddol am:<br>➢ ansawdd bywyd ar draul sancteiddrwydd bywyd mewn perthynas ag erthylu ac ewthanasia (safbwyntiau Peter Singer - 'rhywogaethiaeth')<br>➢ ‘Hawl i Ddewis’, ‘Urddas wrth Farw’ (ewthanasia)<br>➢ pwyslais ar fywyd cyn marwolaeth yn hytrach na bywyd ar ôl marwolaeth<br>ymagwedd sefyllfaol/perthynolaidd yn hytrach nag athrawiaethol neu absoliwtaidd |
| Credoau ynglŷn â marwolaeth a bywyd ar ôl marwolaeth | ➢ Credoau a dysgeidiaethau Bwdhaidd ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth, yn cynnwys anatta, khanda, karma, samsara, nirvana, aileni, teyrnasoedd bodolaeth<br>➢ Safbwyntiau amrywiol am draddodiad Triratna nad yw'n angenrheidiol i gredu mewn aileni bywyd i fywyd ond yn hytrach, aileni ennyd i ennyd<br>➢ Sut mae angladdau Bwdhaidd yn adlewyrchu credoau ynglŷn â bywyd ar ôl marwolaeth:<br>➢ Defodau amlosgi Bwdhaidd yng Nghymru<br>➢ Angladdau dyneiddiol yng Nghymru fel adlewyrchiad o gredoau ynglŷn â marwolaeth fel diwedd bywyd |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Cysyniadau:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- bywyd ar ôl marwolaeth
- cyfrifoldeb amgylcheddol
- ewthanasia
- esblygiad
- erthylu
- ansawdd bywyd
- sancteiddrwydd bywyd
- yr enaid

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 2: Materion Daioni a Drygioni**

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried cwestiynau athronyddol ynglŷn â tharddiadau a natur daioni a drygioni. Drwy astudio dysgeidiaethau a chredoau, bydd cwestiynau'n ymwneud â’r hyn sy’n achosi troseddau ac agweddau at amcanion cosbi a thriniaeth troseddwyr yn cael eu hystyried.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Cristnogol

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Trosedd a Chosb | ➢ Beth sy’n gwneud i weithred fod yn ‘anghywir’?<br>➢ Ymatebion crefyddol a moesegol: moesoldeb berthynol ac absoliwt, cydwybod, rhinweddau, pechod<br>➢ Credoau ac agweddau am yr hyn sy’n achosi troseddu ac amcanion cosbi: cyfiawnder, dial, atal a diwygio<br>➢ Triniaeth troseddwyr a gwaith diwygwyr carcharau a chaplaniaid carcharau<br>➢ Ymateb Cristnogol amrywiol i’r Gosb Eithaf, yn cynnwys dehongliadau dysgeidiaeth Gristnogol: Exodus 20:13, Mathew 5:38-39, 43-47 |
| Maddeuant | ➢ Heddwch a gwrthdaro: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn, Heddychiaeth a Gwrthwynebwyr Cydwybodol, Cymdeithas Cyfeillion Cymru (heddychiaeth)<br>➢ Dysgeidiaethau Cristnogol ynglŷn â maddeuant, yn cynnwys dehongliadau o ddysgeidiaethau: Mathew 18:21-22, Mathew 6: 14-15<br>➢ Enghreifftiau o faddeuant yn deillio o gredoau personol |
| Daioni, Drygioni a Dioddefaint | ➢ Safbwyntiau athronyddol am darddiad drygioni: Y Pechod Gwreiddiol (ewyllys rydd) a ‘chreu eneidiau’ (Awstin ac Irenaeus/Hick)<br>➢ Heriau athronyddol o ganlyniad i gredu mewn Duw a bodolaeth drygioni a dioddefaint |

**Cysyniadau**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- daioni/drygioni
- maddeuant
- ewyllys rydd
- cyfiawnder
- moesoldeb
- heddychiaeth
- cydwybod
- dioddefaint

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 2: Materion Daioni a Drygioni**

Mae'r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried cwestiynau athronyddol ynglŷn â tharddiadau a natur daioni a drygioni. Drwy astudio dysgeidiaethau a chredoau, bydd cwestiynau'n ymwneud â'r hyn sy'n achosi troseddau ac agweddau at amcanion cosbi a thriniaeth troseddwyr yn cael eu hystyried.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio'n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Catholig

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Trosedd a Chosb | ➢ Beth sy'n gwneud i weithred fod yn 'anghywir'?<br>➢ Ymatebion crefyddol a moesegol: moesoldeb berthynol ac absoliwt, Cyfraith Naturiol a chydwybod, rhinweddau, pechod<br>➢ Credoau ac agweddau Catholig am yr hyn sy'n achosi troseddu ac amcanion cosbi: cyfiawnder, dial, atal a diwygio<br>➢ Triniaeth troseddwyr a gwaith diwygwyr carcharau a chaplaniaid carcharau<br>➢ Ymatebion Catholig amrywiol i'r Gosb Eithaf, yn cynnwys dehongliadau dysgeidiaeth Gristnogol: Exodus 20:13, Mathew 5:38-39, 43-47<br>➢ Ymateb yr Eglwys Gatholig i drosedd a chosb, yn cynnwys y gosb eithaf a diwygio; *Evangelium Vitae* 56 Y Pab Ioan Paul II |
| Maddeuant | ➢ Heddwch a gwrthdaro: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn. Heddychiaeth a Gwrthwynebwyr Cydwybodol<br>➢ Ymatebion i ddioddefaint a drygioni, yn cynnwys maddeuant<br>➢ Dysgeidiaethau Cristnogol ynglŷn â maddeuant, yn cynnwys dehongliadau o ddysgeidiaethau: Mathew 18:21-22, Mathew 6: 14-15, Ioan 20:21-23,<br>➢ Enghreifftiau o faddeuant yn deillio o gredoau personol |
| Daioni, Drygioni a Dioddefaint | ➢ Safbwyntiau Catholig am darddiad drygioni: Y Pechod Gwreiddiol (ewyllys rydd) a 'chreu enaid' (Awstin ac Irenaeus/Hick): Awstin, Yr Enchiridion 3:11<br>➢ Heriau athronyddol o ganlyniad i gredu mewn Duw a bodolaeth drygioni a dioddefaint<br>➢ Ymatebion Catholig i Broblem Drygioni; *Salvifici Doloris* 13 a 23 Y Pab Ioan Paul II |

**Cysyniadau**

O astudio'r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- daioni/drygioni
- maddeuant
- ewyllys rydd
- cyfiawnder
- moesoldeb
- heddychiaeth
- cydwybod
- dioddefaint

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso'r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 2: Materion Daioni a Drygioni**

Mae'r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried cwestiynau athronyddol ynglŷn â tharddiadau a natur daioni a drygioni. Drwy astudio dysgeidiaethau a chredoau, bydd cwestiynau'n ymwneud â'r hyn sy'n achosi troseddau ac agweddau at amcanion cosbi a thriniaeth troseddwyr yn cael eu hystyried.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio'n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Iddewig

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Trosedd a Chosb | ➢ Beth sy'n gwneud i weithred fod yn 'anghywir'?<br>➢ Ymatebion crefyddol: moesoldeb berthynol ac absoliwt, cydwybod, ewyllys rydd<br>➢ Credoau ac agweddau am yr hyn sy'n achosi troseddu ac amcanion cosbi: cyfiawnder, dial, atal a diwygio<br>➢ Triniaeth troseddwyr a gwaith diwygwyr carcharau a chaplaniaid carcharau<br>➢ Ymatebion Iddewig amrywiol i'r Gosb Eithaf, yn cynnwys dehongliadau o ddysgeidiaethau: Lefiticus 24:17-20, Exodus 20:13 |
| Maddeuant | ➢ Heddwch a gwrthdaro: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn Heddychiaeth a Gwrthwynebwyr Cydwybodol<br>➢ Dysgeidiaethau Iddewig ynglŷn â maddeuant, yn cynnwys dehongliadau o ddysgeidiaethau: Micah 7:18<br>➢ Enghreifftiau o faddeuant yn deillio o gredoau personol |
| Daioni, Drygioni a Dioddefaint | ➢ Safbwyntiau athronyddol am darddiad drygioni: Berakhot 9:5, Avodah Zarah, 3b, Deuteronomium 30:15-19<br>➢ Heriau athronyddol o ganlyniad i gredu mewn Duw a bodolaeth drygioni a dioddefaint<br>➢ Ymatebion Iddewig amrywiol i'r Holocost (Shoah), goroeswyr yr Holocost a ddaeth i Gymru: Eva Clarke<br>➢ Diwrnod Cofio'r Holocost yng Nghymru |

**Cysyniadau**

O astudio'r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- daioni/drygioni
- maddeuant
- ewyllys rydd
- cyfiawnder
- moesoldeb
- heddychiaeth
- cydwybod
- dioddefaint

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso'r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

### Thema 2: Materion Daioni a Drygioni

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried cwestiynau athronyddol ynglŷn â tharddiadau a natur daioni a drygioni. Drwy astudio dysgeidiaethau a chredoau, bydd cwestiynau'n ymwneud â’r hyn sy’n achosi troseddau ac agweddau at amcanion cosbi a thriniaeth troseddwyr yn cael eu hystyried.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Islamaidd

| **Meysydd Astudiaeth** | **Cynnwys Penodol** |
|---|---|
| Trosedd a Chosb | ➢ Beth sy’n gwneud i weithred fod yn ‘anghywir’?<br>➢ Ymatebion crefyddol: moesoldeb berthynol ac absoliwt, cydwybod, ewyllys rydd, gwireddu ewyllys Allah<br>➢ Credoau ac agweddau am yr hyn sy’n achosi troseddu ac amcanion cosbi: cyfiawnder, dial, atal a diwygio: Qur'an 16:90<br>➢ Triniaeth troseddwyr a gwaith diwygwyr carcharau a chaplaniaid carcharau<br>➢ Ymatebion Islamaidd amrywiol i’r gosb eithaf, yn cynnwys dehongliadau o Gyfraith Shariah<br>➢ Enghreifftiau o Gyfraith Shariah yng Nghymru |
| Maddeuant | ➢ Heddwch a gwrthdaro: Damcaniaeth Rhyfel Cyfiawn/Jihad Lleiaf, Heddychiaeth a Gwrthwynebwyr Cydwybodol<br>➢ Dysgeidiaethau Islamaidd ynglŷn â maddeuant. Qur'an 64:14, 42:30<br>➢ Enghreifftiau o faddeuant yn deillio o gredoau personol |
| Daioni, Drygioni a Dioddefaint | ➢ Safbwyntiau athronyddol am darddiad drygioni: Y Diafol yn profi bodau dynol: Qur'an 2:34, 155<br>➢ Y gred mewn rhagordeiniad (al Qadr) |

**Cysyniadau**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- daioni/drygioni
- maddeuant
- ewyllys rydd
- cyfiawnder
- moesoldeb
- heddychiaeth
- cydwybod
- dioddefaint

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 2: Materion Daioni a Drygioni**

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried cwestiynau athronyddol ynglŷn â tharddiadau a natur daioni a drygioni. Drwy astudio dysgeidiaethau a chredoau, bydd cwestiynau'n ymwneud â’r hyn sy’n achosi troseddau ac agweddau at amcanion cosbi a thriniaeth troseddwyr yn cael eu hystyried.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Hindŵaidd

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Trosedd a Chosb | ➢ Beth sy’n gwneud i weithred fod yn ‘anghywir’?<br>➢ Ymatebion crefyddol: cydwybod, karma, dharma, ahimsa, moksha<br>➢ Credoau ac agweddau am yr hyn sy’n achosi troseddu ac amcanion cosbi: cyfiawnder, dial, atal a diwygio<br>➢ Triniaeth troseddwyr a gwaith diwygwyr carcharau a chaplaniaid carcharau<br>➢ Ymatebion Hindŵaidd amrywiol i’r gosb eithaf, yn cynnwys dehongliadau o effaith ahimsa ar rôl karma.<br>➢ Egwyddorion paapa a danda |
| Maddeuant | ➢ Heddwch a gwrthdaro: Heddychiaeth a Gwrthwynebwyr Cydwybodol<br>➢ Dysgeidiaethau Hindŵaidd ynglŷn â maddeuant: cyfreithiau dharma a karma<br>➢ Enghreifftiau o faddeuant yn deillio o gredoau personol |
| Daioni, Drygioni a Dioddefaint | ➢ Safbwyntiau athronyddol am darddiad drygioni: karma a guna: Bhagavata Purana 6:1.45, Bhagavad Gita 14,17<br>➢ Credoau Hindŵaidd ynglŷn â natur maya a papa a’r cysylltiadau rhwng karma a dioddefaint<br>➢ Ymatebion Hindŵaidd i ddioddefaint: Brahma Sutra, 2.1.34-36 |

**Cysyniadau Allweddol:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- daioni/drygioni
- maddeuant
- ewyllys rydd
- cyfiawnder
- moesoldeb
- heddychiaeth
- cydwybod
- dioddefaint

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 2: Materion Daioni a Drygioni**

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried cwestiynau athronyddol ynglŷn â tharddiadau a natur daioni a drygioni. Drwy astudio dysgeidiaethau a chredoau, bydd cwestiynau'n ymwneud â’r hyn sy’n achosi troseddau ac agweddau at amcanion cosbi a thriniaeth troseddwyr yn cael eu hystyried.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Sikhaidd

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Trosedd a Chosb | ➢ Beth sy’n gwneud i weithred fod yn ‘anghywir’?<br>➢ Ymatebion crefyddol a moesegol: Duw, cydwybod, karma, mukti, ahimsa: Guru Granth Sahib 1, 1241<br>➢ Credoau ac agweddau am yr hyn sy’n achosi troseddu ac amcanion cosbi: cyfiawnder, dial, atal a diwygio<br>➢ Triniaeth troseddwyr a gwaith diwygwyr carcharau a chaplaniaid carcharau<br>➢ Ymatebion Sikhaidd amrywiol i’r Gosb Eithaf, yn cynnwys dehongliadau o effaith ahimsa |
| Maddeuant | ➢ Heddwch a gwrthdaro: Heddychiaeth a Gwrthwynebwyr Cydwybodol<br>➢ Dysgeidiaethau Sikhaidd ynglŷn â maddeuant, yn cynnwys Guru Granth Sahib 866<br>➢ Enghreifftiau o faddeuant yn deillio o gredoau personol |
| Daioni, Drygioni a Dioddefaint | ➢ Safbwyntiau athronyddol am darddiad drygioni a rhwystrau i mukti: karma, maya, manmukh a phum drygioni kam, lobh, moh, krodh ac ahankar: Guru Granth Sahib 1342<br>➢ Y cysylltiadau rhwng karma a dioddefaint |

**Cysyniadau Allweddol:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- daioni/drygioni
- maddeuant
- ewyllys rydd
- cyfiawnder
- moesoldeb
- heddychiaeth
- cydwybod
- dioddefaint

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 2: Materion Daioni a Drygioni**

Mae'r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried cwestiynau athronyddol ynglŷn â tharddiadau a natur daioni a drygioni. Drwy astudio dysgeidiaethau a chredoau, bydd cwestiynau'n ymwneud â'r hyn sy'n achosi troseddau ac agweddau at amcanion cosbi a thriniaeth troseddwyr yn cael eu hystyried.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio'n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Bwdhaidd

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Trosedd a Chosb | ➢ Beth sy'n gwneud i weithred fod yn 'anghywir'/'anfedrus'?<br>➢ Ymatebion crefyddol a moesegol: moesoldeb berthynol ac absoliwt, cydwybod, ahimsa, karuna, karma, samsara, Y Llwybr Wythblyg, Pum Argymhelliad<br>➢ Credoau ac agweddau am yr hyn sy'n achosi troseddu ac amcanion cosbi: cyfiawnder, dial, atal a diwygio: Stori Milarepa<br>➢ Triniaeth troseddwyr a gwaith diwygwyr carcharau a chaplaniaid carcharau: Cymdeithas Angulimala<br>➢ Ymatebion Bwdhaidd amrywiol i'r Gosb Eithaf, yn cynnwys dehongliadau dysgeidiaethau: Y Ffordd Ganol, Pum Argymhelliad, karuna, ahimsa, metta |
| Maddeuant | ➢ Heddwch a gwrthdaro: Heddychiaeth a Gwrthwynebwyr Cydwybodol<br>➢ Dysgeidiaethau Bwdhaidd ynglŷn â maddeuant, yn cynnwys dehongliadau o ddysgeidiaethau: Metta – stori Bwdha ac Angulimala<br>➢ Enghreifftiau o faddeuant yn deillio o gredoau personol |
| Daioni, Drygioni a Dioddefaint | ➢ Safbwyntiau athronyddol am darddiad drygioni: dukkha, Mara, ymlyniad, Tri Gwenwyn: Dhammapada 12:165, Y 101 stori Zen 9 a 63<br>➢ Cysylltiadau rhwng karma, gweithredoedd 'anfedrus' a dioddefaint |

**Cysyniadau allweddol:**

O astudio'r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- daioni/drygioni
- maddeuant
- ewyllys rydd
- cyfiawnder
- moesoldeb
- heddychiaeth
- cydwybod
- dioddefaint

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso'r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

# 2.2 Uned 2

## RHAN A

Mae'n rhaid i ymgeiswyr astudio'r ddwy gred/dysgeidiaeth greiddiol benodedig a'r ddwy arfer benodedig y grefydd Cristnogaeth **AC** un arall o chwe phrif grefyddau'r byd*: Iddewiaeth NEU Islam NEU Hindŵaeth NEU Sikhiaeth NEU Fwdhaeth

**Mae'n rhaid i'r dewis o grefyddau'r byd (yn ychwanegol at Gristnogaeth) fod yr un fath ar gyfer Rhan A a Rhan B. Gall yr un grefydd gael ei dewis o grefyddau'r byd ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 ond nid oes raid gwneud hynny.*

Pan fo'n briodol, rhaid i ymgeiswyr ystyried safbwyntiau amrywiol.

**Cristnogaeth - credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd**

**Credoau**

**Y Beibl**

- Fel Gair Duw, awdurdod, ysgrythur sanctaidd (Deutoronomium 4:1-2) ysbrydoliaeth a datguddiad
- Fel casgliad o weithiau ysgrifenedig yn seiliedig ar gyd-destun, cynulleidfa, cymdeithas, bwriadau'r awduron
- Defnyddiau/defnyddioldeb (2 Timotheus 3:16-17); cyfraith absoliwt, arweiniad, ei ddefnydd yn ystod addoliad a seremonïau (Bedydd, Priodas, Angladdau)
- Gwahanol ffyrdd o ddehongli'r hyn a ysgrifennwyd yn y Beibl: llythrennol, ceidwadol, symbolaidd, myth Beiblaidd
- Y Beibl mewn perthynas â ffynonellau eraill o awdurdod, e.e. cydwybod (Rhufeiniaid 2:14-15), teulu, rheswm, cymdeithas, sefyllfaoedd, cyfraith sifil, amgylchiadau

**Bywyd ar ôl Marwolaeth**

- Cred mewn bywyd ar ôl marwolaeth (Ioan 3:16, Ioan 11: 25-26 a chofnodion yr Efengylau o'r Atgyfodiad)
- Barn, cyfrifoldeb am weithredoedd (Mathew 25:31-46) ac ewyllys rydd
- Atgyfodiad (1 Corinthiaid 15: 20-22)
- Nefoedd ac Uffern (Ioan 14:1-4; Luc 16:19-31)

**Arferion**

**Taith Bywyd:** Sacramentau a gweithredoedd addoliad allweddol:

- Bedydd (Marc 1:9-11); Bedydd Babanod a Chredinwyr; rhesymau a defodau
- Ewcharist/Cymun (1 Corinthiaid 11:23-26): dehongliadau Cristnogol amrywiol ac arferion cysylltiedig
- Conffyrmasiwn (bedydd esgob) - paratoi a seremoni (Actau 2: 1-13)
- Arwyddocâd priodas grefyddol (Marc 10:7-9): symbolau ac addunedau priodasol

**Mannau Arbennig**

- Arwyddocâd man addoli (Hebreaid 10:24-25; Mathew 18:20)
- Pwrpas pererindod, mannau, gweithgareddau, profiadau yng Nghymru ac mewn mannau eraill e.e. Y Tir Sanctaidd, Tyddewi, Ynys Enlli, Ffynnon Santes Non

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **BEIBL** | **DATGUDDIAD** | **BARN** | **BEDYDD** |
| **RHESWM** | **CONFFYRMASIWN (BEDYDD ESGOB)** | **EWCHARIST** | **PERERINDOD** |
| **EWYLLYS RYDD** | **NEFOEDD/UFFERN** | **ADDUNEDAU** | **SYMBOLAU PRIODAS** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Iddewiaeth - credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd**

**Credoau**

**Testunau Sanctaidd**

- Pwysigrwydd Y Tenakh (Torah, Nevi'im, Ketuvim) fel y'i datgelwyd a/neu fel Gair ysbrydoledig Duw
- Pwysigrwydd y Talmud

**Y Cyfamod**

- Cyfamod Abraham: hunaniaeth, enwaediad a gwlad yr addewid: (Genesis 12:1-3, 17:6-8, 17:11-14)
- Cyfamod Moses: Cyfraith, gorchmynion, hunaniaeth, Gwlad yr Addewid: (Exodus 3:11-15)
- Y Cyfamod heddiw: sut mae'r cytundebau Cyfamod hyn yn parhau i fod yn bwysig i lawer o Iddewon yng Nghymru, y DU ac o gwmpas y byd, yn cynnwys yn Israel ei hun

**Arferion**

**Y defnydd o destunau sanctaidd**

- Y Tenakh a'i ddefnydd mewn addoliad, gweddi, astudiaeth a dathliadau Iddewig
- Y Talmud fel esboniad o'r cyfreithiau sy'n bodoli yn y Torah
- Pwysigrwydd y Deg Gorchymyn/dyletswyddau am resymau crefyddol a moesegol.
- Amrywiaeth arferion Iddewig ynghylch ufuddhau i'r Deg Gorchymyn e.e. Shabbat

**Hunaniaeth Iddewig**

- Symbolau: y mezuzah a Magen Dafydd
- Seremoni a symbolau Brit Milah (yn cynnwys rolau'r mohel a'r sandek)
- Bar/Bat Mitzvah fel seremonïau sy'n dynodi hunaniaeth Iddewig; Seremoni, arwyddocâd a symbolau
- Y defnydd o'r tallit, tefillin a'r kippah a'u pwysigrwydd; symbolaeth ac arwyddocâd pob un
- Gwyliau a dathliadau: Yom Hashoah, Rosh Hashanah, Yom Kippur a Pesach; arwyddocâd, paratoi a dathlu'r gwyliau yma (Exodus 12:14)

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **TENAKH** | **TALMUD** | **CYFAMOD** | **BRIT MILAH** |
| **BAR/BAT MITZVAH** | **MEZUZAH** | **PESACH** | **MAGEN DAFYDD** |
| **ABRAHAM** | **MOSES** | **GWLAD YR ADDEWID** | **TEFILLIN** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

## Islam - Credoau , dysgeidiaethau ac arferion craidd

### Credoau

**Proffwydiaeth** (Risalah - Qur'an 2:136)

- Dysgeidiaethau Islamaidd am Adda, y proffwyd cyntaf
- Dysgeidiaethau Islamaidd am Ibrahim ac Ishmael
- Isa: Dysgeidiaethau Islamaidd am proffwyd Iesu (Qur'an 2:87)
- Dysgeidiaethau Islamaidd am Muhammad: Sêl y Proffwydi

**Bywyd ar ôl Marwolaeth (Akhirah)**

- Al-Qadr (rhagordeiniad): Goblygiadau i ryddid dynol
- Akhirah: cyfrifoldeb ac atebolrwydd dynol
- Rhyddid dynol a chysylltiad hynny â Dydd y Farn
- Credoau Mwslimaidd am natur, camau a phwrpas nefoedd
- Credoau Mwslimaidd am natur a phwrpas uffern

### Arferion

**Hunaniaeth Fwslimaidd ac Ummah**

- Nodweddion mosgiau yng Nghymru ac mewn mannau eraill: cromennau, minaretau, wal qibla, mihrab, minbar
- Pererindod i Mecca fel gweithred orfodol: pwrpas ac arferion/defodau (Qur'an 3:18)
- Gwisg: hijab, niqab, burkha – amrywiaeth mewn agweddau ac arferion o fewn Islam fel y maent i'w gweld mewn gwahanol gymunedau Mwslimaidd yng Nghymru
- Jihad Lleiaf; amodau datgan jihad lleiaf (Qur'an 2:190, 22:39)

**Gwyliau a dathliadau**

- Id-ul-Adha: sut mae Mwslimiaid yn dathlu hyn yng Nghymru a mannau eraill
- Id-ul-Fitr: sut mae Mwslimiaid yn dathlu hyn yng Nghymru a mannau eraill
- Noson Nerth: sut mae cyflwyno'r Qur’an yn cael ei ddathlu

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **PROFFWYD** | **ISA** | **MUHAMMAD** | **UMMAH** |
| **MOSG** | **MECCA** | **BURKHA** | **HIJAB** |
| **AL-QADR** | **AKIRAH** | **JIHAD LLEIAF** | **ID-UL-FITR** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Hindŵaeth - credoau, dysgeidiaethau ac arferion craidd**

**Credoau**

**Karma ac ailymgnawdoliad**
- Yng nghyd-destun samsara (Bhagavad Gita 2:13, 15, 22)
- Karma fel cyfraith achos ac effaith; achos karma cadarnhaol a negyddol; effeithiau karma ar y mathau o ailymgnawdoliad
- Llwyddo i ryddhau'r atman o gylch genedigaeth, marwolaeth, ailymgnawdoliad (moksha)

**Varnashramadharma**
- Yng nghyd-destun trefn gosmig
- Deall cysyniad varna (cast) ac effaith hynny ar gymdeithas Hindŵaidd yng Nghymru ac India
- Mudiadau diwygio o fewn Hindwaeth: ISKON a Vivikenanda Ramakrishna sy'n ceisio diwygio agweddau at varnas
- Y pedwar varna a'r jatis cysylltiedig
- Statws Dalitiaid (gorffennol a phresennol)
- Pwysigrwydd dyletswydd (dharma) ym mywyd yr Hindŵ
- Y pedwar ashrama a'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig â hwy

**Arferion**

**Gwyliau**
- Diwali – straeon, arwyddocâd ac arferion
- Holi – amrywiaeth o ran cefndir: dathlu stori Krishna a Radha neu Holika a Prahlada
- Dathlu gwyliau mewn cymunedau Hindŵaidd yng Nghymru

**Cyfranogiad cymdeithasol**
- Arfer ahimsa
- Parch at yr amgylchedd – datblygu coedwig yn Vrindavan, gwaith mudiad Chipko;
- Llysieuaeth – arferion ISKCON;
- Gofal am yr anghenus – gwaith 'Bwyd am Oes' yng Nghymru a mannau eraill

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **KARMA** | **SAMSARA** | **MOKSHA** | **CAST (VARNA)** |
| **ASHRAMA** | **AHIMSA** | **DIVALI** | **HOLI** |
| **AILYMGNAWDOLIAD** | **DHARMA** | **RAMAYANA** | **ISKCON** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Sikhiaeth - Credoau , dysgeidiaethau ac arferion craidd**

## Credoau

### Awdurdod

- Rôl a phwysigrwydd Guru Nanak a Guru Gobind Singh
- Tarddiad awdurdod a phwysigrwydd Guru Granth Sahib
- Trin y Guru Granth Sahib fel Guru byw
- Arwyddocâd a dylanwad y khalsa mewn Sikhiaeth

### Cydraddoldeb

- Dysgeidiaethau am undod Duw a dynoliaeth – dim lle i wahaniaethu ar unrhyw sail
- Condemniad y Gurus o'r gyfundrefn gast – 'Gwybod bod pob un ohonom wedi'n geni o'r un clai'
- Cydraddoldeb rhwng dynion a menywod – pwysigrwydd menywod mewn rolau megis granthis (Guru Granth Sahib 349)

## Arferion

### Defodau Newid Byd

- Priodas: trefniadau cefndirol, gofynion angenrheidiol – presenoldeb y Guru Granth Sahib
- Nodweddion a symbolaeth seremoni briodas
  Defodau angladdau; nodweddion a symbolaeth

### Gwyliau

- Prif nodweddion gurpurbs – sut mae Sikhiaid yn cofio pen-blwyddi Guru Nanak a Guru Gobind Singh a merthyrdod Guru Arjan
- Prif nodweddion ac arwyddocâd dathlu gwyliau Sikhaidd Baisakhi a Diwali (Bhai Gurdas Var 3.11, 41)

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **GRANTHI** | **GURU GOBIND SINGH** | **LAVAN** | **GURPURBS** |
| **BAISAKHI** | **DIWALI** | **MERTHYRDOD** | **AMLOSGI** |
| **KHALSA** | **GURU ARJAN** | **CAST** | **CHAURI** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Bwdhaeth - Credoau , dysgeidiaethau ac arferion craidd**

**Credoau**

**Tri Nod Bodolaeth (lakshanas)**

- Byrhoedledd (anicca)
- Dim hunan/hanfod/enaid penodol (anatta); pum agreg ((s)kandha) (Stori Nagasena a’r Cerbyd Rhyfel a Dhammapada 113)
- Dioddefaint/anfodlonrwydd (dukkha)

**Y Tair Gem**

- Ystyrir bod y gemau yn cynnig lloches (diogelwch) i Fwdhyddion
- Bwdha – yr enghraifft o fod goleuedig
- Dhamma – dysgeidiaethau’r Bwdha sy’n ganllawiau i’r Bwdhyddion
- Sangha – y gymuned o Fwdhyddion, yn cynnwys mynachod, sy’n cadw’r dysgeidiaethau yn fyw

**Arferion**

**Mannau ‘Addoliad’ a Puja**

- Pwysigrwydd a nodweddion a swyddogaethau vihara/cysegr yn y cartref
- Amrywiaeth arferion Theravada a Mahayana puja (Bwdha, bwdhâu, bodhisattva, mudra, mantra, mandala)
- Dana (rhoi) – cyfle i gynnig bwyd i fynachod
- Enghreifftiau o waith y sangha yng Nghymru (Abertawe, Caerdydd, Rhaglan)

**Ymddygiad Moesegol**

Y Pum Argymhelliad: (Dhammapada 183)

- Peidio â niweidio unrhyw greadur byw; goblygiadau deiet, ffordd o fyw, gyrfa
- Peidio â chymryd yr hyn sydd heb ei roi
- Osgoi camymddwyn rhywiol; goblygiadau i safbwyntiau am rywioldeb
- Osgoi celwydd; goblygiadau dweud celwydd, hel straeon, athrodi
- Ymwrthod rhag pethau sy’n cymylu'r meddwl (alcohol, cyffuriau); goblygiadau i ffordd o fyw
- Heriau sy’n wynebu Bwdhyddion Triratna sy'n byw yn unol â’r Pum Argymhelliad yn niwylliant y Gorllewin

CYSYNIADAU ALLWEDDOL:

| | | | |
|---|---|---|---|
| **ANICCA** | **ANATTA** | **(S)KANDHA** | **VIHARA** |
| **BODHISATTVA** | **5 ARGYMHELLIAD** | **PUJA** | **STUPA** |
| **THERAVADA** | **MAHAYANA** | **MUDRA** | **TRIRATNA** |

(h) WJEC CBAC Cyf.

**RHAN B**

Hefyd, mae'n rhaid i ymgeiswyr astudio'r ddwy thema foesegol o safbwynt Cristnogaeth **AC** un arall o chwe phrif grefyddau'r byd*: Iddewiaeth NEU Islam NEU Hindŵaeth NEU Sikhiaeth NEU Fwdhaeth

**Perthnasoedd**
**Hawliau Dynol**

**Mae'n rhaid i'r dewis o grefyddau'r byd (yn ychwanegol at Gristnogaeth) fod yr un fath ar gyfer Rhan A a Rhan B. Gall yr un grefydd gael ei dewis o grefyddau'r byd ar gyfer Uned 1 ac Uned 2 ond nid oes raid gwneud hynny.*

**Thema 1: Materion Perthnasoedd**

Mae'r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried nodweddion perthnasoedd, priodas a bywyd teuluol. Drwy astudio credoau a dysgeidiaethau, bydd cwestiynau'n ymwneud â pherthnasoedd yn yr unfed ganrif ar hugain yn cael eu hystyried, yn cynnwys perthnasoedd o'r un rhyw a rolau'r rhywiau.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio'n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

Pan fo'n briodol, rhaid i ddysgwyr ystyried safbwyntiau amrywiol.

**Cynnwys o Safbwynt Cristnogol**

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Perthnasoedd | ➢ Credoau, agweddau a dysgeidiaethau Cristnogol amrywiol am natur a phwrpas perthnasoedd yn yr unfed ganrif ar hugain: teuluoedd, rolau dynion a menywod, priodas y tu allan i'r traddodiad crefyddol a chyd-fyw<br>➢ Natur a phwrpas priodas fel y'i mynegir drwy seremonïau priodas a dysgeidiaethau Cristnogol: Marc 10:6-8 a Synod Eglwys Lloegr<br>➢ Agweddau Cristnogol amrywiol at odineb, ysgariad a diddymu a gwahanu ac ailbriodi. Dehongliadau o Mathew 19:8-9 a Marc 10:9 |
| Perthnasoedd rhywiol | ➢ Dysgeidiaethau Cristnogol am natur a phwrpas rhyw a defnyddio atal cenhedlu yn cynnwys dehongliadau amrywiol ynghylch y Ddeddf Naturiol/ymagwedd Absoliwtaidd Pum Gofyniad Cynradd Aquinas gan gyfeirio at yr Ail Ofyniad Cynradd<br>➢ Agweddau amrywiol o fewn ac ar draws traddodiadau Cristnogol at berthnasoedd o'r un rhyw, yn cynnwys dehongliadau amrywiol o: Lefiticus 20:13 a 1 Timotheus 1: 8-10 |
| Materion cydraddoldeb: rhagfarn a gwahaniaethu ar sail rhyw | ➢ Agweddau amrywiol o fewn Cristnogaeth at rolau menywod a dynion mewn addoliad ac awdurdod<br>➢ Dehongliadau o ddysgeidiaethau: 1 Timotheus 2:11-12, Galatiaid 3:27-29<br>Penderfyniad yr Eglwys yng Nghymru ynglŷn ag offeiriaid ac esgobion benywaidd o'i gymharu â safbwyntiau Catholig |

**Cysyniadau Allweddol:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- godineb
- ysgariad
- cyd-fyw
- ymrwymiad
- atal cenhedlu
- cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- cyfrifoldebau
- rolau

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 1: Materion Perthnasoedd**

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried nodweddion perthnasoedd, priodas a bywyd teuluol. Drwy astudio credoau a dysgeidiaethau, bydd cwestiynau'n ymwneud â pherthnasoedd yn yr unfed ganrif ar hugain yn cael eu hystyried, yn cynnwys perthnasoedd o’r un rhyw a rolau’r rhywiau.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Iddewig

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
| --- | --- |
| Perthnasoedd | ➢ Credoau, agweddau a dysgeidiaethau Iddewig am natur a phwrpas perthnasoedd yn yr unfed ganrif ar hugain: teuluoedd, rolau dynion a menywod, priodas y tu allan i’r traddodiad crefyddol a chyd-fyw<br>➢ Natur a phwrpas priodas fel y’i mynegir drwy seremonïau priodas a Iddewig yn cynnwys y Saith Bendith a Ketubah<br>➢ Agweddau Iddewig amrywiol at odineb, cyhoeddi get, ysgariad, gwahanu ac ailbriodi. Dehongliadau o Deuteronomium 24:1-4 ac Exodus 20:14 |
| Perthnasoedd rhywiol | ➢ Dysgeidiaethau Uniongred a Diwygiedig am natur a phwrpas rhyw a defnyddio atal cenhedlu<br>➢ Agweddau Uniongred a Diwygiedig amrywiol o fewn ac ar draws traddodiadau Iddewig at berthnasoedd o’r un rhyw, yn cynnwys dehongliadau amrywiol o: Lefiticus 18:22, 20:13 |
| Materion cydraddoldeb: rhagfarn a gwahaniaethu ar sail rhyw | ➢ Agweddau Uniongred a Diwygiedig amrywiol o fewn Iddewiaeth at rolau menywod a dynion mewn addoliad ac awdurdod |

**Cysyniadau Allweddol:**

O astudio’r meysydd uchod, bydd dysgwyr yn dod i ddeall y cysyniadau canlynol:

- godineb
- ysgariad
- cyd-fyw
- ymrwymiad
- atal cenhedlu
- cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- cyfrifoldebau
- rolau

Dylai dysgwyr allu esbonio a chymhwyso’r cysyniadau hyn mewn perthynas â'r thema.

(h) WJEC CBAC Cyf.

**Thema 1: Materion Perthnasoedd**

Mae’r thema hon yn ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr ystyried nodweddion perthnasoedd, priodas a bywyd teuluol. Drwy astudio credoau a dysgeidiaethau, bydd cwestiynau'n ymwneud â pherthnasoedd yn yr unfed ganrif ar hugain yn cael eu hystyried, yn cynnwys perthnasoedd o’r un rhyw a rolau’r rhywiau.

Disgwylir y bydd dysgwyr yn cyfeirio’n berthnasol at yr ysgrythur a ffynonellau eraill o awdurdod.

## Cynnwys o Safbwynt Islamaidd

| Meysydd Astudiaeth | Cynnwys Penodol |
|---|---|
| Perthnasoedd | ➢ Credoau, agweddau a dysgeidiaethau Islamaidd am natur a phwrpas perthnasoedd yn yr unfed ganrif ar hugain: teuluoedd, rolau dynion a menywod, priodas y tu allan i’r traddodiad crefyddol a chyd-fyw: Hadith Sahih Bukhari 9:89:252<br>➢ Natur a phwrpas priodas fel y’i mynegir drwy seremonïau priodas a dysgeidiaethau Mwslimaidd: Qur'an 30:21<br>➢ Agweddau Islamaidd at odineb, ysgariad, gwahanu ac ailbriodi Qur'an 4:35, 128-130, 2:229<br>➢ Seremonïau priodi mewn mosgiau yng Nghymru – seremoni swyddfa gofrestru a seremoni Fwslimaidd<br>➢ Priodasau wedi’u trefnu/priodasau â chymorth yng Nghymru ac mewn mannau eraill |
